PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG


# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 29 Gorffennaf 18, 2024 50c.

## TUEDDIAD PERYGLUS PARATOI AT RYFEL

### Rhybudd Cadeirydd Cymdeithas Heddwch yr Annibynwyr

Ar y prynhawn pan fu farw'r Frenhines Elizabeth, sef 8 Medi 2022, yn eu cwrdd chwarter yng nghapel gwledig Ffynnonbedr ger Meidrim, fe wnaeth Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin ddatgan eu gwrthwynebiad llwyr i fwriad Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig i wario degau o biliynau o bunnau'n ychwanegol ar y lluoedd arfog.



Liz Truss oedd y Prif Weinidog bryd hynny, ac er iddi hi a'i holynydd Rishi Sunak fynd i ebargofiant gwleidyddol erbyn hyn, yng nghyfarfod NATO wythnos ddiwethaf fe gyhoeddodd y Prif Weinidog newydd Syr Keir Starmer ei fod am fwrw ymlaen â'r cynllun i godi'r gwariant ar amddiffyn i 2.5% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) 'ymhen amser'. Mae'r ganran bresennol eisoes dipyn uwch na disgwyliad NATO o 2%, a osodwyd ganddynt mewn uwchgynhadledd yng Nghymru ddeng mlynedd yn ôl.

#### Symiau anferth

Mae Prydain yn gwario £54biliwn ar amddiffyn eleni. Byddai codi'r ganran i 2.5% erbyn 2030 yn golygu gwario £87biliwn y flwyddyn. Anodd gweld sut y byddai modd gwneud hynny heb godi trethi neu dorri'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus – megis y Gwasanaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

#### Gwariant anghyfrifol

'A ninnau'n dal i fod mewn cyfnod o argyfwng economaidd, byddai'n wariant hollol anghyfrifol,' meddai'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Cadeirydd Cymdeithas Heddwch yr Annibynwyr. 'Sut mae cyfiawnhau gwario degau o biliynau o bunnau'n ychwanegol ar ehangu'r lluoedd arfog, pan fod miliynau o deuluoedd yn profi caledi gwirioneddol oherwydd y cynnydd mewn costau byw? Byddai ariannu'r fath gynnydd anferth mewn gwariant ar amddiffyn trwy arallgyfeirio arian mawr o wasanaethau cyhoeddus fel iechyd a gofal, sydd eisoes yn gwegian, yn wirioneddol warthus'.

#### Torri cymorth dramor

Cyfeiriodd at y toriad mewn Cymorth Dramor yn 2021 – o 0.7% o GDP i 0.5% – er mwyn cefnogi'r gyllideb amddiffyn. 'Mae'r cam yma wedi cael effaith ddinistriol ar waith dyngarol yn y gwledydd mwyaf tlawd yn y byd, lle mae pobl yn marw o newyn wrth y miloedd. Er i Rishi Sunak, oedd yn ganghellor bryd hynny, addo adfer y 0.7% o fewn dwy flynedd, nid yw hynny wedi digwydd. Fy mhryder yw na fydd e fyth yn digwydd, pwy bynnag fydd yn Rhif 10.'

#### Tueddiad peryglus

Dim ond pum gwlad arall yn y byd sy'n gwario mwy na Phrydain ar amddiffyn. 'Mae awydd llywodraeth y DU i gynyddu grym ei luoedd arfog yn dwysáu'r naws filitariaeth yn rhyngwladol ac yn fwriadol gyfrannu tuag at greu hinsawdd i baratoi'r cyhoedd ar gyfer gwrthdaro yn y dyfodol,' meddai Guto Prys ap Gwynfor. 'Mae hyn yn dueddiad peryglus dros ben.'

## Swyddog Cymorth Ymarferol

Cafodd cais am i'r Undeb benodi swyddog i ddarparu arweiniad a chymorth ymarferol i'r eglwysi ei dderbyn gan y Cyfarfod Blynyddol yn Nhrefforest, Pontypridd wythnos ddiwethaf. Cyflwynwyd penderfyniad oedd yn galw am swyddog o'r fath gan Dr Dai Lloyd a Gareth Richards ar ran Cyfundeb Gorllewin Morgannwg.

Dywedodd y cyfundeb fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am gyngor, arweiniad a chymorth ymarferol oddi wrth y cyfundebau. Felly, roedden yn gofyn i'r Undeb i ystyried y posibilrwydd o benodi 'swyddog i ddarparu arweiniad a chymorth ymarferol i ymddiriedolwyr, diaconiaid a swyddogion eglwysi mewn perthynas â materion megis gofal tir, statws elusennol, cynllunio ar gyfer y dyfodol, dirwyn achosion i ben a gwaredu eiddo.'

[Fe fydd adroddiadau pellach o'r Cyfarfodydd Blynyddol yn *Y Tyst* yn fuan.]




*Gareth Richards a Dai Lloyd o Gyfundeb Gorllewin Morgannwg a gyflwynodd y penderfyniad i'r gynhadledd yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb*

APÊL Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2023–24

# Ffynhonnau Byw

## Pianothon a Phaned – Seion Aberystwyth



*O'r chwith i'r dde. Eleri Pryse, Ann Evans, Elizabeth Evans, Rhiannon Davies, Nia Manning. Yn absennol o'r llun Mererid Thomas.*

Roedd festri Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth yn llawn bwrlwm ar Fore Sadwrn 15 Mehefin, a'r piano'n tincial yn ddi-stop wrth i'r organyddion gymryd eu tro i chwarae cyfanswm o 250 o wahanol emynau ar y piano, a hynny mewn dwy awr a hanner. Yr achlysur oedd casglu arian at Apêl Cymorth Cristnogol, Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

**Cefndir swynol i'r cymdeithasu**

Bu'r chwe organydd wrthi'n ddiwyd, a gwerthfawrogwyd eu hymroddiad yn fawr. Mor hyfryd oedd clywed yr emynau, ac ambell i garol hefyd, yn gefndir swynol wrth i gyfeillion fwynhau paned, danteithion blasus a'r sgwrsio difyr wrth y byrddau. Cafwyd cefnogaeth gref ymhob rhyw fodd er hwyluso llwyddiant yr achlysur gan berthnasau, ffrindiau o bell ac agos, aelodau o gapeli ac eglwysi'r dref a thu hwnt, a diolchir yn ddiffuant iawn i bawb ac yn arbennig i'r noddwyr am yr haelioni a ddangoswyd ganddynt tuag at yr apêl. Codwyd £2,278 o bunnoedd ar yr achlysur arbennig hwn. Cymaint yn wir yw ein braint wrth geisio helpu'r anghenus rai ym mhob cwr o'r byd.

# Dathlu'r 100 yng Ngwaelod-y-garth

Roedd yna ddathliad arbennig ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, i nodi fod Mrs Ann Williams, Yr Eglwys Newydd, wedi cyrraedd ei chant oed.



*Mrs Ann Williams a'r teulu*

Mae Mrs Williams wedi mynychu'r oedfaon yn gyson ar hyd y degawdau a chafwyd cwmni aelodau'r teulu ac aelodau'r tŷ cwrdd yn ystod pregeth y Parchedig Dafydd Owen ac yna i rannu teisen a dishgled yn y festri, wedi hynny. Yn wreiddiol o Gwmparc yn y Rhondda, bu Ann a'i phriod yn weithgar iawn ym Methlehem, gyda'i diweddar briod, Glyndwr, yn organydd yno am flynyddoedd.



*Amser chwythu'r canhwyllau a chymdeithasu wedi'r oedfa*



*Trafod pethau amgylcheddol: Fiona Gannon a Delyth Higgins o A Rocha UK yn trafod y cynllun eco-eglwysi yng Nghynhadledd Blynyddol yr Undeb yn Nhrefforest, Pontypridd*

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 18 2024 RHIF 177

# Eglwysi Cymru yn darparu cannoedd o dai i bobl yn eu cymunedau lleol

Mae'n debyg ein bod wedi hen ddiflasu ar ddarllen y penawdau negyddol yn y cyfryngau'n sôn am gapeli ac eglwysi'n cau, ac yna'n cael eu gwerthu er mwyn eu troi'n gartrefi gwyliau, yn Airbnb neu'n weithdy blêr yr olwg. Bu hanes capel y Parch. Evan Roberts ym Mhistyll, Llŷn, ac Eglwys Goffa Ann Griffiths yn y penawdau'n ddiweddar, gyda beirniadaeth lem ar yr enwadau am eu diffyg parch a gofal o'r adeiladau hynafol hyn. Cawsom stori hefyd am wraig yn cael ei throi allan o'i chartref wrth i'r achos gau, a gorfodaeth i werthu'r adeilad o'r herwydd.

**Gormod o adeiladau**

Does dim amheuaeth nad oes yna adeiladau sydd â gwerth hanesyddol a diwylliannol yn perthyn iddynt a bod angen diogelu rhai o'r mannau cysegredig hyn. OND y gwir plaen yw nad oes modd diogelu pob un capel ym mhob un cymuned, ac mae'n anorfod y gwelwn ddegau, os nad cannoedd, o gapeli ac eglwysi yn cael eu cau a'u gwaredu dros y degawd nesaf. Does dim angen amgueddfa / canolfan dreftadaeth Gristnogol arnom ymhob un pentref dros Gymru!

Erbyn hyn, mi fydd yr enwadau'n edrych yn ofalus iawn ar y sefyllfa'n lleol cyn penderfynu gwerthu unrhyw adeilad, gan ofyn a oes 'na gyfle cenhadol, neu a oes modd plannu rhywbeth newydd, neu weithio'n gydenwadol i sefydlu gwaith newydd. Ond mewn amryw o sefyllfaoedd, ni fydd yr adeiladau hynny'n addas ar gyfer gwaith newydd. Ac os yw cyflwr yr adeiladau'n sâl, mae'n well gwaredu a llogi/prynu gofod mwy addas. Mae sawl eglwys flaengar wedi gwerthu adeilad oedd yn anaddas ar gyfer gofynion heddiw ac yn llogi gofod cymunedol ar gyfer eu cyfarfodydd. Ar rai adegau, bydd modd gosod yr adeilad ar les dymor hir i eglwys neu sefydliad arall, os gwelir bod gwerth iddo o fewn y gymuned. Os nad yw hynny'n ymarferol, yna mae'n well gwerthu'r adeilad er mwyn iddo gael ei ddatblygu i bwrpas gwahanol, boed yn gartref neu'n ganolfan. Cofiwn mai 'pobl' sy'n gwneud eglwys ac nid 'cerrig'.

**Defnydd ehangach gan y gymuned**

Ond gan gydnabod bod yna nifer o gapeli ac eglwysi wedi cael eu gwerthu yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n rhaid hefyd sylweddoli bod yna stoc sylweddol iawn o adeiladau'n dal ar agor. Yn ogystal â chael eu defnyddio at waith a chenhadaeth yr eglwys, maent yn cael eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Bydd pob math o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ynddynt, ac yn aml iawn efallai mai'r capel yw'r unig adeilad cyhoeddus yn y pentref.

Mi rydw i'n weinidog ar ddau gapel felly – yn Llwyndyrys a Phencaenewydd yn Eifionydd. Yn ogystal ag oedfaon ac ysgolion Sul yn y ddau leoliad, bydd y gofod hefyd yn cael ei ddefnyddio gan fudiad y Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, cwmni drama, dosbarth cadw'n heini, partïon plant, ac yno hefyd yr oedd modd bwrw pleidlais yn yr etholiad a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bu gosod cyswllt â'r we yn y ddau le yn gymorth i ddenu defnyddwyr



Yr hen fans a dau fflat sy'n gartref i dri theulu yn Chwilog

o'r tu allan, gan eu gwneud yn gyfleus ar gyfer cynnal pwyllgorau'r Cyngor Cymuned yn fisol. Ond, yn bwysicach, maent yno ynghanol y gymuned – yn ofod cyhoeddus ar gyfer achlysuron arbennig pan fo angen. Erbyn hyn mae un o'n capeli yn Chwilog yn cael ei ddefnyddio rhwng 9 a 5 o'r gloch o ddydd Llun tan ddydd Gwener i gynnal Ysgol Feithrin yn y pentref. Hwn oedd yr unig adeilad addas yn y pentref oedd wrth law i'r ysgol, a braf clywed sŵn 15 o blant yn rhedeg o gwmpas y lle yn ystod y dydd. Maent wedi datblygu gardd gymunedol a lle chwarae tu allan, ac wedi llwyddo i godi cegin a thoiledau newydd ar gyfer y capel.

**Tai cymunedol**

Byddwn yn clywed llawer o sôn y dyddiau yma am brinder tai rhent fforddiadwy yn ein cymunedau. Dyma un cyfraniad arall mae eglwysi Cymru yn ei gyflawni. Yma yn Chwilog, er enghraifft, rhwng y ddau enwad mae gennym ddau fans nad oes mo'u hangen ar gyfer y gweinidog, tri thŷ capel a dau eiddo arall sy'n cael eu gosod i deuluoedd lleol. Dyna saith cartref sy'n cael eu darparu gennym, mwy nag sydd yna o dai cymdeithasol gan y Cyngor erbyn hyn yn y pentref.

Rydym ar hyn o bryd yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o brynu un eiddo arall, sydd angen gwaith sylweddol arno, er mwyn ei gynnig i rywun lleol, rhag iddo gael ei droi'n fwthyn gwyliau arall. O fewn yr ofalaeth mae 'na gyfanswm o 12 cartref yn cael ei ddarparu yn ein cylch lleol ni. Petaem yn edrych ar y darlun ehangach, down i sylweddoli bod 'na gannoedd, os nad miloedd, o dai'n cael eu gosod gan gapeli ac eglwysi. Tybed a ddylem fynd ati i greu fforwm neu gymdeithas tai fel enwadau, er mwyn rhannu am yr holl waith da sy'n cael ei gyflawni? Mae swyddogion gwirfoddol ein heglwysi'n barod i fynd ar gyrsiau hyfforddiant er mwyn parhau i wneud hyn, a rhaid cydnabod a diolch am yr ymroddiad hwn. Bydd llawer hefyd yn gwneud gwaith cynnal a chadw er mwyn gofalu bod y tai yn ddiogel ac yn gyfforddus.

Ie, heb os, fe glywn adrodd eto yn y cyfryngau am y modd y mae'r 'enwadau' wedi cau capeli pwysig neu wedi amddifadu

(parhad ar y dudalen nesaf)

rhywun o gartref wrth ddwyn achos i ben. Pan glywn y storïau hynny, lle bydd ’na feirniadu hallt ar y cyfryngau cymdeithasol, cofiwn hefyd am yr holl ddefnydd da ac adeiladol sydd yna ar ein hadeiladau, ac am y gofal a’r buddsoddi sy’n cael ei wneud er mwyn eu diogelu i’r dyfodol.

Beth am yr adeiladau yn eich ardal chi? Ydych chi’n gwneud y defnydd gorau posib ohonynt? Oes ’na gyfle i addasu a datblygu adeilad er mwyn gwneud gwell defnydd ohono? Parhaed y drafodaeth yn lleol!

*Aled Davies*




Cylch Meithrin Chwilog sydd bellach yn cartrefu yn festri Capel Uchaf Chwilog yn barhaol

## Llewelyn Lewellin a Choleg Dewi Sant, dulliau cyfieithu *beibl.net* – a llawer mwy yn y rhifyn diweddaraf o’r *Traethodydd*

Bywyd a gwaith Llewelyn Lewellin, prifathro cyntaf Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, yw testun prif erthygl rhifyn Gorffennaf o’r *Traethodydd*, a’i hawdur yw’r Gwir Barchedig J. Wyn Evans, cyn-esgob Tyddewi a chyn-ddeon y gadeirlan yno. Yn ogystal â bod yn bennaeth y coleg yr oedd Lewellin – ac fel ’na y sillafai ei enw – hefyd, yr un pryd, yn ddeon Tyddewi ac yn ficer plwyf Llanbedr Pont Steffan. Mae’n erthygl ddifyr gan feistr ar ei bwnc. Er i’r prifathro gael eu farnu’n hallt gan rai o’i gyfoeswyr ac eraill a ddaeth ar ei ôl, mae Wyn Evans yn mynnu bod cryn dipyn i’w ddweud o’i blaid. Traethwyd y ddarlith sy’n sail i’r erthygl fel rhan o ddathliadau daucanmlwyddiant Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Y seicolegydd Cristnogol Gaius Davies, awdur y gyfrol boblogaidd *Genius and Grace* ac amryw o lyfrau eraill, yw pwnc ysgrif John Emyr, y bardd a’r llenor o Gaerdydd. Wrth dalu teyrnged i un a fu’n gyfaill teuluol iddo ef a’i rieni, mae’n olrhain ei yrfa o’i blentyndod ym mhentref glofaol Pen-y-groes, Sir Gâr, yn nhridegau’r ganrif ddiwethaf, i flynyddoedd ei hyfforddiant meddygol yn Ysbyty Sant Bartholomew, Llundain. Yna, cyfeirir at ei gyfnod fel meddyg teulu yng Nghonwy yn y 1960au, cyn iddo ddychwelyd i Lundain er mwyn ailhyfforddi fel seicolegydd yn Ysbyty Maudsley ac yn y brifysgol yno. Er mai meddyg a seicolegydd proffesiynol ydoedd wrth ei alwedigaeth, mawr oedd ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth, hanes a’r celfyddydau yn gyffredinol. Ac er iddo fyw yn Llundain weddill ei oes, parhaodd i gyfrannu at y diwylliant Cymraeg fel darlledwr a sylwebydd cyson ar ei faes.

Mae Rowland Wynne yn parhau â’r ail ysgrif yn ei gyfres ar wyddonwyr o Gymru, a Joan Strothers, ‘yr arbrofwr digymar’, yw’r pwnc y tro hwn. Yn ferch o Abertawe a astudiodd ym Mhrifysgol Caer-grawnt, gwnaeth gyfraniad mawr ym maes ffiseg. Fel E. G. Bowen, y gwyddonydd y soniwyd amdano yn rhifyn blaenorol *Y Traethodydd*, radar oedd ei harbenigrwydd mawr. Beth bynnag am ei chyfraniad neilltuol yn y byd gwyddonol, gwnaeth hynny fel merch. ‘Person arbennig felly,’ meddai Rowland Wynne, ‘ond uwchlaw hyn, un a oresgynnodd ragfarn y cyfnod yn erbyn merched.’ Da, felly, yw cael gwybod amdani hi.

Does dim amheuaeth nad un o’r cyfraniadau mwyaf i grefydd Gymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain hyd yn hyn yw *beibl.net*, cyfieithiad arloesol y Dr Arfon Jones o’r Beibl mewn ieithwedd gyfoes. Mewn dadansoddiad gwybodus, mae Iwan Rhys Jones, yntau’n ysgolhaig beiblaidd, yn tafoli’r dulliau cyfieithu a defnyddiwyd wrth lunio’r gwaith hwn gan roi golwg hefyd ar dechneg cyfieithu yn gyffredinol. Yn ôl un adolygydd cynnar, ‘chwithig’ yw Cymraeg y cyfieithiad hwn. Nid dyna farn pawb, a does dim amheuaeth nad yw’r gwaith wedi ennill ei le mwyach ymhlith yr ieuenctid yn arbennig. Darllenwch yr ysgrif hon i wybod mwy amdano.

Ceir pedwar adolygiad y tro hwn. Rhianedd Jewell o Brifysgol Aberystwyth sy’n gwerthfawrogi astudiaeth Angharad Price, *Gororion: Llên Cymru yng Nghyfandir Ewrop*. Yna, mae Gareth Evans-Jones, yr ysgolhaig amryddawn o Brifysgol Bangor yn tafoli *Dros Gyfiawnder a Rhyddid: Y Cambrian Guards a Rhyfel Cartref America*, cyfraniad diweddaraf ei gyd-Fangoraid Gerry Hunter at ein gwybodaeth am Gymry yr Unol Daleithiau. M. Wynn Thomas sy’n trafod hynodrwydd barddoniaeth Aled Jones Williams ac yn esbonio’i nodweddion, ei pherthnasedd i’n hoes ni a’i harwyddocâd. Ac yn olaf y Golygydd sy’n cymeradwyo astudiaeth swmpus ddiweddar John Harding, *The Theology of Griffith Jones and Religious Thought in Eighteenth Century Wales*. Beirdd y rhifyn yw Mary Burdett-Jones a D. Ben Rees.

Anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond




i’w brynu a’i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw’r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

**Nodyn i’r tanysgrifwyr**: trwy amryfusedd, gyrrwyd cynnwys rhifyn Ebrill atoch ynghyd â chlawr y rhifyn cyfredol. Cafwyd sicrwydd gan y wasg y bydd y rhifyn cywir yn cyrraedd yn fuan. Gobeithio nad yw hyn wedi achosi gormod o anhwylustod i’r rhai sy’n tanysgrifio, gyda diolch i bawb sy’n gwneud hynny ac anogaeth i eraill ystyried hynny.

*Densil Morgan (gol.)*

# Cytûn yn y Sioe Fawr a'r Eisteddfod

Yn ôl ein harfer bydd gan Cytûn bresenoldeb yn y ddau ddigwyddiad cenedlaethol hwn, gan geisio bod yn dystiolaeth yn enw'r eglwysi a'r enwadau.


Os byddwch yn mynd i gyfeiriad Llanelwedd ar gyfer y Sioe, cofiwch alw i'n gweld ar res C, lle bydd 'na baned a theisen gri yn disgwyl amdanoch. Bydd gwasanaeth byr bob dydd am 11.00, a chyfle am sgwrs a seiat. Bydd dewis o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth, ynghyd â gweithgareddau i blant.

Eleni, presenoldeb llai o ran maint i'r arfer fydd 'na ar faes yr Eisteddfod, gan nad yw gofod yn caniatáu i ni gael ein stondin fawr arferol. Galwch i'n gweld serch hynny, a bydd detholiad o lyfrau newydd a chardiau Nadolig ar gael gennym. Oddi yno, fe wnawn eich cyfeirio at eglwys St Catherine, sy'n llai na 5 munud o daith ar droed, dros y bont droed ac i gyfeiriad y stryd fawr. Yno byddwn yn cynnig paneidiau yn ddyddiol, yn cynnal gwasanaethau dyddiol am 1.00 bob prynhawn ac yna ambell sesiwn a lansiad llyfr. Bydd yna arddangosfeydd hefyd yn yr eglwys, yn dangos gwaith nifer o fudiadau Cristnogol, ynghyd â sioe flodau ac arddangosfa o luniau ffenestri lliw hynafol. Mae croeso i deuluoedd alw i mewn, a bydd digon o ddarpariaeth ar gyfer plant o bob oed.

Bydd croeso mawr yn eich disgwyl felly yn eglwys St Catherine bob dydd o Sadwrn, 3 Awst, tan Sadwrn, 10 Awst, rhwng 11.30 y bore a 5.30 y pnawn.

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

Galwch i'n gweld yn Eglwys St Catherine




**Ar agor bob dydd 3–10 Awst rhwng 11.30 a 5.30**
(12.30–5.30 ddydd Sul)

**Croeso cynnes i bawb**

Gweithgareddau i blant

**Addoliad bob dydd am 1.00**

Stondinau ac arddangosfeydd

Cyfle i drafod cwestiynau mawr bywyd a ffydd

Arddangosfa flodau a ffenestri lliw hanesyddol yn adrodd hanes Cristnogaeth yng Nghymru


AM DDIM I BAWB

PANED A THEISEN GRI
**AM DDIM**
*Croeso cynnes i bawb*



Daeth gwersi'r ysgol Sul i ben dros yr haf, ac rydym yn ddiolchgar i Denzil John am ei gyfraniadau gwerthfawr ar sail ei gyfrol *Gair Duw ar Waith*.

Bu'r myfyrdodau dros y flwyddyn ddiwethaf yn gyfle inni edrych ar y gwaith ymarferol sy'n cael ei gyflawni yn enw'r eglwysi.




BBC radio cymru

**Radio Cymru**
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 21 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 21 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Wyn Thomas, Dre-fach Felindre a Thir Dewi

# GOHEBIAETH – Dyfodol *Y Tyst*

Dyma fy ymateb i'r holiadur ymddangosodd yn *Y Tyst* ar 20 Mehefin.

Rwy'n teimlo'n drist yn naturiol wrth feddwl efallai y bydd fersiwn copi caled o *Y Tyst* fel papur wythnosol yn dod i ben. Mae derbyn copi ar bapur i'w ddarllen yn wythnosol wedi bod yn bwysig ac yn rhan allweddol o fy mywyd tros y blynyddoedd. Mae ei ddarllen yn creu yr ymdeimlad o berthyn i'r teulu o Annibynwyr Cymraeg, sy'n gynhysgaeth bwysig. Yn naturiol felly hoffwn weld *Y Tyst* fel papur wythnosol yn parhau. Sylweddolaf fod colled o £36,000 i'w gyhoeddi yn un aruthrol, ond gan fod gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg dros filiwn o bunnau ar gyfer cyllido ei holl weithgareddau credaf y dylsai'r Undeb barhau i noddi *Y Tyst*. Credaf fod gwerth y papur wythnosol yn cyfiawnhau ei gost. Ac er mwyn ei achub a fyddai modd meddwl am ymgyrch ariannol, a chwilio am noddwyr yn bosibl, yn ychwanegol i nawdd yr Undeb? Er mwyn cadw'r Annibynwyr selog yn ein plith yn hapus credaf ei fod yn werth y gost i'r Undeb.

Tebyg iawn y byddwn yn barod i'w ddarllen ar y we yn unig, er nad dyma fy arfer mor belled. Llawer gwell gennyf innau ddarllen papur dyddiol, cylchgrawn neu lyfr na darllen fersiwn electroneg. Rwy'n hapus i dalu am rifyn copi caled yn wythnosol.

Ni fyddwn yn hapus i weld *Y Tyst* yn dod i ben, gyda'r deunydd yn cael ei gynnwys yn Cenn@d, ond byddai hyn yn anghenraid os collir *Y Tyst* fel papur wythnosol. Mae'r aelodau sy'n derbyn *Y Tyst* yn eglwysi fy ngofalaeth – Gellimanwydd, Rhydaman a Moreia, Tycroes – yn bryderus iawn ynghylch colli *Y Tyst*, ac ambell un heb fodd yn eu cartrefi i'w ddarllen yn ddigidol. Maent o'r farn y dylsai'r Undeb barhau i noddi *Y Tyst* fel papur wythnosol er y gost i'r Undeb.

Gwn fod rhaid symud gyda'r oes, ond a fyddai colli *Y Tyst* yn ergyd farwol yn ein hanes fel Annibynwyr? A ydym yn gwybod beth yw'r ymateb wedi bod ymhlith y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid ers iddynt golli eu papurau wythnosol?

Dyma felly fy ymateb i'r holiadur.

Yn ddiffuant,

Parchg Emyr Gwyn Evans, Y Tymbl

Annwyl Olygydd,

Dyma adborth i'r drafodaeth ar *Y Tyst*.

- Mae'n bwysig i mi allu darllen *Y Tyst* yn wythnosol
- A hynny er mwyn gwybod beth sydd ymlaen yn ein heglwysi Annibynnol
- Mae'n anodd cyfiawnhau ei fod yn werth y gost i'r Undeb
- Byddwn yn barod iawn i'w ddarllen ar y we yn unig
- Byddwn yn fodlon i weld *Y Tyst* yn dod i ben gyda'r deunydd yn cael ei gynnwys yn *Cenn@d*

Diolch,

Parchg Guto Llywelyn

# Cenhadu yn Creunant

Ym mis Mehefin fe ddaeth cenhadon i'r Creunant drwy gymorth DNA Mission UK. Roeddynt wedi mynd o ddrws i ddrws yn gwahodd cymdogion y capel i'r oedfa cenhadu ar Ddydd Sul a braf iawn oedd cymdeithasu gyda nhw. (Llun: Parchg Rhys Locke)



# 90 EILIAD I ARMAGEDON: GOCHELWCH RHAG NIWCLEAR

Dyna oedd byrdwn neges Mabon ap Gwynfor AS wrth annerch aelodau Cyfundeb Gorllewin Morgannwg mewn Cwrdd Chwarter yn Nhy'n-y-coed ym mhen uchaf Cwm Tawe ar nos Lun braf, 10 Mehefin. Llecyn hyfryd yw Ty'n-y-coed; yn adeilad sgwâr, syml o dan gysgod y Cribarth a blaenau'r Tawe islaw ar y ffin rhwng y garreg galch a'r gwythiennau glo a roddodd anadl i ddiwydiant a chymdeithas yma. Diddorol yw'r cloc garreg unigryw ar ochr yr adeilad sy'n wynebu'r heol ac yn cofnodi: capel Ty'n-y-coed, perthynol i'r Annibynwyr, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1774 ac a ailadeiladwyd yn y flwyddyn 1829. Ac er bod y bysedd wedi aros yn eu hunfan ar 6.45 o'r gloch, nid dyna yw hi yn achos y bygythiad i'n byd bregus, ac mae amser yn prinhau.

### Cyflwyno Mabon

Croesawyd pawb gan Emyr Lewis ar ran aelodau Ty'n-y-coed ac ar ôl trafod materion y Cyfundeb cyflwynwyd Mabon gan Dr Dai Lloyd, cadeirydd y cyfundeb, ysgrifennydd Bethel, Sgeti a chyn-aelod Senedd Cymru. 'Hysbys y dengys dyn o ba radd y bo'i wreiddyn,' medd yr hen air, a gwirionedd pob gair y ddihareb yn achos Mabon. Mae'n arddangos holl egwyddorion da dros gyfiawnder ei linach gyfoethog. Mae Mabon yn heddychwr ac ymgyrchydd dros y pethau gorau yn ein cymdeithas. Yn aelod dros Ddwyfor-Meirionnydd ac yn llefarydd ei blaid dros Faterion Cefn Gwlad, Cynllunio, a Thai. Yn gynnar wedi ei ethol i'r Senedd yn 2021 cafodd

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## Etholiadau, Ecoleg a'r Efengyl

Rwy'n dechre sgrifennu'r geiriau hyn pedwar diwrnod wedi cyhoeddi canlyniad etholiad y DU, a diwrnod wedi cyhoeddi canlyniad yr etholiad yn Ffrainc, a byddwch yn eu darllen ar drothwy'r Sioe Fawr yn Llanelwedd. Wedi i mi eu gorffen, bydd angen i mi (a chithau efallai) droi tuag at Drefforest i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. Beth sydd gan y cyfuniad cymhleth hwn o ddigwyddiadau i'w ddweud wrthym?

### Ymwrthod â pherygl

I ddechrau, fe ddylai Cristnogion, beth bynnag yw'n hymlyniadau gwleidyddol ni, fod yn llawenhau fod y DU a Ffrainc wedi ymwrthod â'r perygl o weld y pŵer gwleidyddol yn symud tua'r dde eithafol. Yn hyn oll, wrth gwrs, mae'r tirlun gwleidyddol wedi newid yn ddirfawr yma yng Nghymru – ond mae'r un bygythiad am y dyfodol yma hefyd. Yn y ddwy wladwriaeth, mae'r cynnydd a welwyd yn nylanwad ac agweddau gwleidyddol a moesol pleidiau eithafol yn fater o bryder mawr. Mae'n arwydd o gefnogaeth gynyddol i'r awydd i ynysu'n hunain oddi wrth wledydd a diwylliannau eraill, i ymwrthod â'r egwyddor Gristnogol greiddiol o groesawu amrywiaeth gyfoethog crefyddau, diwylliannau, hiliau ac ieithoedd yn ein plith.




### Croeso i bawb

Cawn ein hatgoffa o hyn bob Sul yn ein capel ni, gan faner liwgar ar wal flaen y capel, sydd wedi ei gwnïo gan ein cylch crefftau, sy'n datgan, mewn brodwaith dros lun o ddrws ffrynt y capel, fod 'Croeso i bawb yma'. Mae angen rheolaeth ar fewnfudo, wrth gwrs. Yn fwyaf arbennig, mae angen atal yr elw erchyll mae llawer yn ei wneud drwy dwyllo pobl ddiniwed i dalu symiau anfoesol o uchel am le ar gychod bychain bregus sy'n rhoi eu bywyd mewn perygl bob dydd. Diolch fyth fod y cynllun creulon i ddanfon i Rwanda y sawl sydd wedi cyrraedd yma mewn cychod bregus, wedi ei atal eisoes. Cofiwn nad codi muriau yw'n galwad Gristnogol ond croesawu, ymgeleddu, tosturio a gofalu, a cheisio sicrhau fod bygythion i rai bregus y byd yn cael eu hatal.

### Creu un teulu

Dyma un rheswm dros groesawu geirfa (mae'n rhy gynnar i farnu ar weithredoedd eto) prif weinidog newydd y DU (p'un ai ydym yn cefnogi'r blaid Lafur ai peidio!) sydd wedi rhoi pwyslais ar bartneriaeth a chydweithio rhwng gwledydd, oddi fewn i'r ynysoedd hyn ac yn fyd-eang. Chwalwyd llawer perthynas yn y DU, ac ar lwyfan Ewrop a'r byd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n bryd eu hadfer a'u hailadeiladu. Fe'n lluniwyd fel cenhedloedd i fod yn bartneriaid, i fod yn gydweithwyr â Duw yn Iesu, yn y dasg fawr o greu un teulu, yn ei holl amrywiaeth a'i gymhlethdod, mewn dynolryw a grëwyd 'ar lun a delw Duw'.

### Gweithio a gweddïo

Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn, bydd Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb drosodd, ond gallwn fod yn eithaf sicr y bydd gweledigaeth y Deyrnas – y daeth Iesu i'w chyhoeddi a'i byw – wedi bod yn ganolog yn y cyfan a wnaed ac a ddywedwyd. Bydd gweithio a gweddïo dros gyfiawnder, cymod, tegwch a rhyddid i bawb fel ei gilydd wedi bod yn sylfaenol. Fe fydd maniffesto Iesu wedi bod yn sail i'r cyfan: '... i bregethu y newydd da i dlodion ... i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion (sy'n gaeth i bwerau creulon a gorthrymus y byd o hyd) ac i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd.' Fe fyddwn wedi ymrwymo i ddal ati gyda'r rhaglen waith hon, yn enw'r Deyrnas, yng ngrym yr Ysbryd, ac mewn partneriaeth â Cymorth Cristnogol, CWM, Cyngor Eglwysi'r Byd, Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd a mudiadau ecwmenaidd eraill sy'n gweithredu'r rhaglen waith hon yma yng Nghymru ac yn fyd-eang.

### Consyrn dros fyd natur ac amaeth

Mae gŵyl fawr Llanelwedd yn cynnig her arall i ni fel Cristnogion. I rai ohonom, y merlod Cymreig yw calon y sioe, a gallwn i dreulio'r pedwar diwrnod yn eu gwylio'n dangos eu doniau, a'u cotiau yn sglein i gyd! Ond rhaid i mi gyfaddef fod mwy i'r sioe na cheffylau! Mae'r pwyslais canolog arni fel Sioe *Amaethyddol* Cymru, yn gosod y consyrn dros fyd natur ac amaeth Cymru yng nghanol y darlun. Ni allwn feddwl am fyd amaeth heb feddwl hefyd am yr amgylchedd y mae ffermwyr yn ei drin a'i feithrin a'i warchod bob dydd. Amaethyddiaeth, wedi'r cyfan, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o fyd natur Cymru a bydd gwarchod y byd hwnnw yn un o'r ffactorau creiddiol pan fydd ffermwyr yn ceisio gwneud penderfyniadau anodd iawn – yn enwedig yn yr hinsawdd wleidyddol ac economaidd sydd ohoni – am sicrhau elw i'w teulu, am warchod y tir a ymddiriedwyd iddynt a sicrhau lles a ffyniant yr anifeiliaid sydd dan eu gofal. Rhaid i ni fel Cristnogion weld hyn oll hefyd fel rhan o raglen y Deyrnas. Os ydym am hyrwyddo'r agenda 'werdd', ecolegol, fel stiwardiaid dros gread Duw, yn enw'r Efengyl, yna mae meithrin ein partneriaeth greadigol â byd amaeth a gwarchodaeth yn rhan o'r dasg.

### Gweledigaeth y Deyrnas

Rydym ar drothwy cyfnod newydd. Wrth i ni gadw llygad ar y modd y bydd addewidion etholiadol yn cael eu gweithredu (yma ac yn Ewrop benbaladr), wrth i ni feithrin partneriaeth ag eraill sydd â'r un blaenoriaethau â ni ac wrth i ni chwarae ein rhan i warchod y cread a ymddiriedwyd i'n gofal, gobeithio mai gweledigaeth y Deyrnas fydd yn ein hysbrydoli ac mai egwyddorion Efengyl y Deyrnas fydd y grym i'n gyrru ymlaen.

**Noel A. Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## 90 EILIAD I ARMAGEDON – parhad



*Emyr Lewis, Elaine ac Ann Donovan yn ein croesawu i Dy'n-y-coed*

Mabon ei hun dan bwysau busnesau ac unigolion oedd yn gefnogol i'r sector niwclear a dymunai ailgodi adweithydd newydd yn ei etholaeth, yn arbennig yn Nhrawsfynydd.

### Gofyn cwestiynau anodd

Er mwyn casglu gwybodaeth gytbwys aeth ati i ofyn cwestiynau anodd, er mwyn deall y diwydiant yn well. Amharod oedd y rhai dros niwclear i ateb, yn onest, ei ymholiadau treiddgar ac felly aeth ati i ymchwilio a chysylltu ag arbenigwyr byd-eang a darllen yn eang am y pwnc. Canlyniad ei waith ymchwil oedd cyhoeddi *Going Nuclear*. Er cydnabod bod y dechnoleg niwclear yn gamp ryfeddol o ddyfeisgarwch dynol, mae ganddi bŵer dinistriol anferthol a'i gwastraff ymbelydrol yn parhau am filoedd o flynyddoedd. Yn ogystal mae cysylltiad amwys rhwng niwclear militaraidd a chynhyrchu trydan.

### Gwariant disynnwyr ar arfau

Mae'r bygythiad gan wledydd militaraidd i ddefnyddio grym y bom niwclear yn fyw iawn heddiw. Mae Rwsia, Israel, Iran, y Deyrnas Gyfunol, yr India, China a'r UDA yn meddu ar dunelli o'r bomiau yma, ac yn eu cadw rhag ofn. A thra bod gwario a gwario ar arfau yn parhau mae newyn a thlodi ar raddfa erchyll yn codi. Mae'n hinsawdd yn twymo a'n hamgylchedd naturiol yn cael ei ddifwyno. O ganlyniad i ryfel a newid hinsawdd mae mudo ar lefel byd-eang yn digwydd sy'n effeithio ar wledydd cyfoethocaf y byd a thwf y dde eithafol. Yng Nghymru mae tlodi plant ar gynnydd a'n Gwasanaeth Iechyd dan fygythiad ... ag eto mae'r gwario ar arfau a rhyfel yn llifo'n ddidrafferth. Ble yw'r synnwyr yn hyn?



*O'r chwith: John Williams (trysorydd y cyfundeb), Ann Donovan (ysgrifennydd Ty'n-y-coed), Fiona Gannon (cyfieithydd a chyfeilydd), Mabon ap Gwynfor AS, Emyr Lewis (swyddog Ty'n-y-coed), Dr Dai Lloyd (cadeirydd) a Gareth Richards (ysgrifennydd)*

## Ydych chi'n rhan o sgwrs *Y Cwmni Bach*?




Mae'r sgwrsio yn parhau gyda phodlediad *Y Cwmni Bach*. Yn rhifyn mis Gorffennaf caiff Elinor Wyn Reynolds gwmni'r gantores opera Mary Lloyd Davies o Lanuwchllyn. Y mae Mary wedi byw sawl bywyd o ran ei phrofiadau ar lwyfannau'r byd a phwy feddyliai y byddai Mary Post, yr ieuengaf o dair chwaer, yn cyrraedd y fath uchelfannau.

Ewch i wrando ar ei stori ddifyr hi, am ei chanu, am ei ffydd, ac am ei bywyd yn gyffredinol.

### Cyfle i drafod yn hwyliog

Mae'r *Cwmni Bach* yn gyfle i drafod pob mathau o bethau mewn modd hamddenol a hwyliog. Rydyn ni'n hoffi clywed hanesion pobl a dyma a gwybod am brofiadau a syniadau gwahanol. Ry'n ni gyd yn rhan o rwydwaith dirgel Duw, ac mae'r *Cwmni Bach* yn ffordd ardderchog i deimlo'n bod ni'n perthyn i'n gilydd. O wrando neu wylio'r penodau, mae'n gyfle i chithau barhau â'r sgwrs ymysg eich gilydd wedyn. Beth yw'ch barn chi am rai o'r pethau a drafodir? Oes gennych chithau brofiadau i'w rhannu? Rhowch wybod i ni yn Nhŷ John Penri.

### Adnodd i bawb

Defnyddiwch y podlediadau unrhyw ffordd yr hoffech, eu gwylio adre, neu eu defnyddio yn lle oedfa neu fel rhan o noson gymdeithasol. Maen nhw'n adnodd i *bawb* ac maent ar gael ar sawl platfform o Spotify i AppleMusic i YouTube. Ac mae nifer o benodau eraill i'w cael hefyd gyda gwesteion mor amrywiol â Geraint Rees, Menna Elfyn, Dewi Myrddin Hughes, Sharon Rees, Siân Meinir, Jef Williams, Ifor ap Glyn ac Edward Morus Jones. Ewch i wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i chwilio am y penodau i gyd.

Byddwch chi'n rhan o'r sgwrs fwy, a mwynhewch. Ewch i'r wefan: annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*